**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Holl Aelodau'r Cynulliad

16 Mehefin 2015

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Yn dilyn ymholiadau diweddar gan Aelodau'r Cynulliad, rwy'n ysgrifennu atoch i esbonio rhai o'r goblygiadau o ran adnoddau a ddaw o baratoi mapiau o Gymru fydd yn ddigon manwl ar gyfer cynnal opsiwn taliad rhanbarthol Cynllun Taliad Sylfaenol newydd y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Fel ag y mae fy nghyd-aelodau yn ei wybod, mae Llywodraeth Cymru'n wrthi'n ymgynghori ar fodelau talu newydd ar gyfer y BPS yn sgil yr her gyfreithiol hydref diwethaf a arweiniodd at wrthod y Rheoliadau cysylltiedig. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ddydd Mawrth nesaf, 23 Mehefin. Un o'r opsiynau dan sylw, a gynigir o dan ddeddfwriaeth yr UE, yw model rhanbarthol sy'n seiliedig ar gategoreiddio ffermdir yn gywir yn unol ag amcanion a meini prawf cyson.

Er mwyn gallu cynnal system o daliadau uniongyrchol o dan y PAC, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru allu categoreiddio tir cymwys hyd at lefel y 'cae (sef cae cyfan fel arfer, ond nid bob tro). Fe gofiwch i'r adolygiad barnwrol o'r rhanbarth 'Rhostir' yr oeddem wedi'i gynnig ar gyfer y BPS, lwyddo am nad oeddem yn gallu sicrhau'n ddigonol y byddai pob ffermwr yn cael ei drin yn gyfartal pe bernid bod cae yn perthyn i un o ranbarthau'r PAC ond fod ganddo nodweddion a photensial tir mewn categori arall. O'r herwydd, mae'r ymgynghoriad presennol yn ei gwneud yn glir y peryglon posibl cysylltiedig o fynd am opsiwn talu rhanbarthol arall. Mae'r ddogfen yn esbonio mai'r unig ffordd effeithiol o leihau'r peryglon hyn yw trwy ailfapio Cymru at bwrpas y BPS, ond mae'n dangos hefyd yr amser a'r ymdrech debygol y byddai gwaith o'r fath yn ei olygu. Mae'r llythyr hwn yn ymhelaethu ar hynny.

<u>Y data mapio sydd gan Lywodraeth Cymru eisoes</u>

Nid yw Lywodraeth Cymru yn credu bod ganddi ddata digon manwl-gywir ar hyn o bryd i gynhyrchu mapiau fydd yn ddigon cywir at bwrpas talu BPS ar lefel cae. Nid oes gennym unrhyw fapiau (e.e. Glastir nac unrhyw gynllun arall) sy'n ddigon cynhwysfawr nac yn ddigon cadarn i sicrhau y gallwn drin pob ffermwr ledled Cymru yn gyfartal. (Ni chafodd y gwaith mapio hwnnw ei wneud i gefnogi taliadau uniongyrchol y PAC.)

I allu paratoi mapiau fyddai'n dangos ansawdd cynhyrchu a photensial amaethyddol y tir, byddai'n rhaid asesu'r pridd yn y fan a'r lle (ar droed). O asesu nodweddion yr hinsawdd, y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

safle (graddiant) a'r pridd, byddai modd dweud pa gnydau y gellid eu tyfu (gan gynnwys porfa, ydau a chnydau garddwrol), lefel y cynhyrchiant, cysondeb y cynhyrchiant a chostau tyfu'r cynnyrch hwnnw. Ni fydd lluniau o'r awyr na mapiau lloeren yn ddigon i wneud hyn. Yn yr un modd, nid yw'r data cyfredol am ddefnydd tir na'r mapiau sy'n dangos llystyfiant (sy'n gallu amrywio'n fawr yn ôl gwahaniaethau rheoli lleol) yn arwydd dibynadwy o ansawdd y tir.

Data sydd gan adrannau eraill y Llywodraeth/Sector Cyhoeddus

Mae hi'n bosibl y gellid defnyddio data Dosbarthiad Tir Amaethyddol Cymru a Lloegr (ALC) i helpu ag ymarferiad mapio ehangach. Fodd bynnag, yr unig fapiau sydd gennym o Gymru sy'n dangos ansawdd y tir yw'r rheini sy'n cael eu defnyddio at ddibenion strategol ac sydd ag uned fapio leiaf o 80 hectar. Mae ALC wedi cynnal rhai arolygon manwl o safleoedd penodol, ond dim o 5.3% o gyfanswm tir Cymru.

Goblygiadau'r gwaith mapio o ran adnoddau

Gallai syrfëwr ALC profiadol arolygu tua 20ha y dydd a rhyw 5,200ha y flwyddyn (gwaith amser llawn). O gofio mai tua 1.85 miliwn o hectarau yw arwynebedd amaethyddol Cymru, fe fyddwch yn deall y byddai'r gwaith o ailfapio'r wlad i gyd yn fenter gostus iawn o ran amser ac arian, gan golygu o bosibl degau o filiynau o bunnau a gwaith fyddai'n para nifer o flynyddoedd.

Byddai angen amser tebyg ag yr oedd ei angen ar yr ALC i greu map manwl llawn o lystyfiant Cymru (syniad arall sydd wedi'i gynnig), ond byddai elfen dymhorol gref i hwnnw; byddai angen tirfesur rhai ardaloedd ar yr adeg iawn o'r flwyddyn gan ychwanegu at yr oedi. P'run bynnag, fel ag a ddisgrifir uchod, ni ellir gwarantu y byddai map llystyfiant llawn yn hollol gywir chwaith, gan fod llystyfiant yn gallu newid ei wasgariad a'i fath o dan effaith amser a rheolaeth.

Gweinyddu'r model taliadau rhanbarthol

Yn ogystal â'r ymarferiad mapio a ddisgrifir uchod, fe fyddai fwy na thebyg angen newid sylweddol i system TG Llywodraeth Cymru gan y byddai'n anorfod, o ddefnyddio categorïau presennol yr ALC, y gwelir bod llawer o gaeau'n cynnwys mwy nag un math o dir. Hefyd, byddai angen sefydlu system apelio fanwl er mwyn i ffermwyr allu apelio yn erbyn y categori tir cychwynnol a/neu'r penderfyniad ynghylch y BPS. Byddai'r ddwy elfen yn ychwanegu at yr oedi wrth roi trefniadau newydd ar waith ac fe fyddai hefyd yn ddrud (rhai miliynau o bunnau, ac o bosibl 18-24 mis o waith).

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn esbonio'r ystyriaethau a rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn talu rhanbarthol.

Yn gywir

Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd
Deputy Minister for Farming and Food